# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 12fed o Chwefror 2019 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Jocelyn Andrew, Wyn Evans, Wyn Jones, Eiddwen Merritt, Gerallt Davies a Ruby Williams.
**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.
**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts a Barry Owen.
**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.
**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr a'u cafwyd yn gywir.
**Codi o'r cofnodion:**
Nodwyd fod y coed wedi eu torri yn y 'layby' yn Ffos-y-ffin.
**Materion Cynllunio:**
Rhif A190017.
Tir yn Wenfryn, Ffos-y-ffin.
Adeiladu 2 dy ar wahân.
Dim gwrthwynebiad.
**Porth y Gymuned**
Darllenwyd lythyr oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion yn codi ymwybyddiaeth o Borth y Gymuned sy'n cynnig cyngor a chymorth i unigolion a theuluoedd. Penderfynwyd i ofyn i'r Cydlynydd Cymunedol, Enfys James i ddod i'n cyfarfod nesaf i drafod y cyfleoedd sydd ar gael yn ein ardal.

**Unrhyw Fater Arall:**
Darllenwyd lythyr oddiwrth un o drigolion Ffos-y-ffin yn gofyn am fwy o oleuni o Ty Gwyn i Ffosdeicyn ble mae'r llwybr troed yn cael ei osod. Penderfynwyd i ddweud wrthi bydd rhagor o olau yn cael ei osod ar ol i'r palmant gael ei orffen.
Penderfynwyd fynd i'r Moody Cow i gael ein cinio blynyddol a bydd y clerc y gwneud trefniadau pellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.25.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 12fed o Fawrth.